

TUDALEN 13

Cofnodion y **Pwyllgor Llywodraethiant, Staffio a Chyllid**, a gynhaliwyd trwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun 14 Mehefin 2021** am 6.30 pm.

YN BRESENNOL: - Y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts (Cadeirydd tan eitem Agenda 40/21)

Cynghorwyr : Gareth Roberts, John Martin, Les Day, Ifan James, George Turner (Cadeirydd ar ôl eitem Agenda 40/21), John Wynn Jones, Kieran Jones

Swyddogion:- Iwan Williams, Cyfarwyddwr Dinesig, Gwynfor Owen (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion)

36/21 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Eu Teilyngod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum.

37/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

38/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

39/21 CYHOEDDIADAU

Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones ei fod yn falch o'r sylw a roddwyd i Faer newydd Bangor yn y cyfryngau, yn sgil y ffaith mai dyma'r Maer anneauidd agored cyntaf yn y byd. Nid yn unig y cafwyd erthyglau yn y wasg leol a chenedlaethol (*Golwg*) ond yn ddiweddar cyhoeddwyd erthygl yn y *Guardian* hefyd, a hyn i gyd yn rhoi'r Maer a Bangor ar y map.

40/21 ENWEBU CADEIRYDD Y PWYLLGOR

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd George Turner. Roedd pawb o blaid. Dywedodd y Cynghorwr ei fod yn ddiolchgar am ffydd ei gyd-gynghorwyr a'i fod yn gobeithio gwneud cyfraniad defnyddiol yn y swydd. Yna cymerodd y Gadair yn lle'r Dirprwy Faer am weddill y cyfarfod.

41/21 ENWEBU DIRPRWY CADEIRYDD Y PWYLLGOR

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd Gareth Roberts. Roedd pawb o blaid a derbyniodd y Cynghorydd Roberts y swydd.

42/21 CYLCHOEDD GORCHWYL Y PWYLLGORAU

Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi drafftio Cylchoedd Gorchwyl i'r ddau brif Bwyllgor. Roedd wedi ymgynghori â Martin Hanks, Clerc y Dref dros dro, a oedd wedi awgrymu rhai newidiadau. Gofynnodd i'r pwyllgor anfon unrhyw sylwadau ar y cylch gorchwyl cyn iddo

TUDALEN 14

gynhyrchu'r fersiwn derfynol i'r Cyngor. Holodd y Cyng Turner a oedd ef yn wynebu unrhyw gyfrifoldebau cyfreithiol fel Cadeirydd y Pwyllgor, ond fe'i sicrhawyd nad oedd y swydd yn golygu unrhyw gyfrifoldeb o'r math yna.

43/21 STRWYTHUR STAFFIO

Eitem gaeedig

44/21 MEINCIAU, PLACIAU AC ARWYDDION ENW Y PIER

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig ei fod wedi cael ceisiadau cyson gan y cyhoedd i osod meinciau neu blaciau coffa ar y Pier. Fodd bynnag, fe'i hysbyswyd fod y Cyngor wedi penderfynu ar ddiwedd 2016 i beidio â chaniatáu mwy o feinciau er cof ac ati gan fod y Pier mewn perygl o gael gormod ohonynt a phryderon am argostau. Felly, bu'n rhaid gwrthod ceisiadau diweddar. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi caniatâd i osod mainc goffa yng Ngerddi Garth er cof am Irfon Williams, oedd wedi'i bwriadu ar gyfer y Pier yn wreiddiol. Cynigiwyd y canlynol gan y Cyfarwyddwr Dinesig:

- a) cynnig meinciau er cof i deuluoedd cyn Feiri Cyngor Dinas Bangor (hyn yn dilyn cais diweddar gan deulu un cyn Faer)
- b) yn dilyn cais gan aelod o'r cyhoedd, rhoi caniatâd iddo ychwanegu enwau ei deulu ar blac sy'n bodoli'n barod. Roedd yr unigolyn wedi cynnig tynnu'r plac a'i ail-osod ar ei gost ei hun.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn lle'r ailadroddodd yr aelodau y teimlad cyffredinol fod y Pier wedi mynd yn rhy llawn o eitemau er cof. Awgrymwyd y gallai lleoliadau eraill ym Mangor fod yn addas e.e. Caeau Ashley Jones. Trafododd y pwyllgor bod teclyn dal blodau er cof wedi cael ei weld yn hongian wrth reiliau'r Pier. Gan fod y Pier yn strwythur rhestredig Gradd II*, nid oes hawl gan neb i osod unrhyw beth arno, yn wir gall hyn fod yn drosedd. Teimlai'r aelodau fod galw amlwg gan y cyhoedd i ddefnyddio'r Pier i gofio'u hanwyliaid, serch hynny ni ddylid caniatáu eithriadau.

PENDERFYNWYD:

- a) peidio â chytuno i ganiatáu i deuluoedd cyn Feiri osod mainc er cof
- b) peidio â chaniatáu i'r unigolyn dan sylw ychwanegu enwau ei deulu at y plac sydd yno'n barod
- c) annog y cyhoedd i feddwl am leoliadau eraill i gofio eu hanwyliaid, neu ffyrdd eraill o gofio, e.e. plannu coeden er cof
- d) gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig ganfod beth yn union yw'r rheolau ar gyfer strwythurau rhestredig gradd II* fel y gall yr aelodau fod yn glir eu meddwl am hyn.

45/21 CYFRIFON TERFYNOL DRAFFT AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2021

- a) **Cadarnhau'r Datganiad o Gyfrifon** Roedd y datganiad eisoes wedi'i rannu gyda'r aelodau ac fe'i CYMERADWYWYD.
- b) **Cadarnhau'r ffigyrau i'r Datganiad Blynyddol 2020/21**
CYMERADWYWYD

TUDALEN 15

c) Penderfynu o fewn gofynion y Datganiad Sicrwydd 2020/21

Penderfynwyd

d) Derbyniad Adroddiad Archwilio Mewnol 2020/21

Tynnodd y Cyng Gwynant Roberts sylw at un mater pwysig o bryder yn yr Adroddiad, sef:

Methiant â chydymffurfio â Rheoliadau Ariannol y Cyngor oherwydd diffyg trefniadau tendro mewn perthynas â'r prosiect adnewyddu mawr

Os yw tendrau yn werth mwy na swm arbennig, dylent ddod o dan reolau caffael cyhoeddus. Fodd bynnag, ni chymerwyd camau yn erbyn y Cyngor. Cytunodd yr aelodau na ellid unioni'r diffyg hwn bellach, ond y bydd yn rhaid i unrhyw gaffael yn y dyfodol lynu wrth y gweithdrefnau cywir. Y Cyfarwyddwr Dinesig i ymchwilio i'r mater hwn ymhellach. PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

46/21 EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Cyllid

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig y byddai angen trosglwyddo rhywfaint o arian o un llinell wariant yn y gyllideb i un arall h.y. digon o arian i dalu am bolisi yswiriant blyneddol y Cyngor.

Roedd anfoneb wedi dod gan Swyddfa Archwilio Cymru am £11,956.50 am adroddiad yn trafod stadiwm Nantporth. Roedd y swm wedi codi cwestiynau felly ni fyddai'n cael ei gymeradwyo yn y cyfarfod hwn.

Mewn cyfarfod blaenorol, ystyriwyd rhoi cyfraniad i Frân Wen a Menter Celfyddydau Bangor. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Dinesig eu bod yn gwahodd cynrychiolwyr o'r ddau fudiad hyn i drafod sut y byddai unrhyw gymorth ariannol gan y Cyngor yn cael ei ddefnyddio.

PENDERFYNWYD gofyn am gyflwyniadau gan Frân Wen a Menter Celfyddydau Bangor yn y cyfarfod nesaf ar 19 Gorffennaf ond peidio â gwneud ymrwymiad ariannol, nes bod y materion uchod wedi cael eu datrys.

47/21 ANFONEBAU I'W TALU

Cymeradwywyd talu anfonebau fel y nodwyd ar y rhestr yn dod i gyfanswm o £19,916.95 gan adael anfoneb Swyddfa Archwilio Cymru nes bod y cwestiynau wedi'u datrys.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.52 pm

CITY DIRECTOR– Iwan Williams – CYFARWYDDWR DINESIG